**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021 am 5.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd H Boggis |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd M Griffiths | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd M Forey |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Ms M Warburton, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol – Carfan Materion Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd R Yeo

**30 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd W jones a Mr Fish - Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwr â hawl pleidleisio

**31 Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a chafodd cyflwyniadau eu gwneud gan yr Aelodau.

**32 Cyfleuster Ymchwil Craffu**

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau fod y cyfleuster ymchwil a chraffu ar gael yn rhan o Uned Busnes y Cyngor er mwyn helpu'r Aelodau i ymgymryd â'u cyfrifoldebau o ran craffu a'u gwaith ehangach fel Aelodau Etholedig. Fel sydd wedi'i nodi ar yr agenda, dylai unrhyw geisiadau gael eu cyflwyno trwy ebost.

**33 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda ar yr adeg yma.

## 34 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021 yn rhai cywir.

## 35 Dolenni Ymgynghori

Penderfynodd yr Aelodau gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

Wrth ymateb i ymholiad mewn perthynas â'r dolenni ymgynghori, ynghylch a fyddai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn parhau, cadarnhaodd y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n cynnal swydd Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol ond cadarnhaodd y byddai ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei rannu â'r Pwyllgor yn y man.

## 36 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu amlinelliad o'r cyfle cyn y cam craffu a ddarparwyd i Aelodau mewn perthynas â'r adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol ar gyfer 2019/20, gan roi cyfle i'r Pwyllgor Craffu gyflwyno'i sylwadau i'r Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2021.
Cyflwynodd y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol y Cyngor ar gyfer 2019/20 gan roi gwybod bod yr adroddiad yn cynnwys y cynnydd a gafodd ei wneud yn ystod y flwyddyn 2019/20 wrth gyflawni'r amcanion cydraddoldeb sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.

Tynnodd Aelod sylw at bwysigrwydd ymateb i ddigwyddiadau diweddar yn y cyfryngau, a'r angen i fynd i'r afael â diogelwch menywod mewn mannau cyhoeddus. Cafodd cynnig ei gyflwyno y dylai cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn gweithredu yn unol â'i swyddogaeth fel Pwyllgor Materion Troseddau ac Anhrefn y Cyngor, gael ei drefnu ar frys, i drafod diogelwch a chydraddoldeb i fenywod yn y gymuned gan gynnig gwahoddiad i bartneriaid perthnasol. Pleidleisiodd y Cynghorwyr yn unfrydol o blaid y cynnig gyda'r bwriad o drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Troseddau ac Anhrefn.

Trafododd yr Aelodau'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ac roedden nhw o'r farn bod y gofynion adrodd allweddol mewn perthynas ag adrodd ynghylch monitro cyflogaeth, cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ac ymrwymiad y Cyngor i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael eu cyflawni. Wrth ymateb i ymholiad ynghylch effaith Covid-19 ar materion megis troseddau casineb, rhoddodd y Rheolwr Amrywiaeth a Chydraddoldeb wybod y byddai'r adroddiad blynyddol nesaf yn adlewyrchu unrhyw effaith ar y maes yma o ganlyniad i'r pandemig. Cydnabyddodd y byddai darparu ffigurau lleol ar ôl Covid-19 yn ddefnyddiol er mwyn i'r Pwyllgor eu hadolygu.

Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad bod gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â nifer o feysydd sydd angen eu gwella o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod y Gweithgor Gwasanaethau

Democrataidd: Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar i gynorthwyo'r Cyngor i sicrhau amrywiaeth mewn democratiaeth cyn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac i annog unigolion i gymryd rhan mewn gwaith Cynghorau Tref, Cymuned a'r Prif Awdurdodau. Cafodd ei nodi bod cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i wella amrywiaeth y Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod hwn yn agenda sy'n datblygu'n gyflym ac sy'n cael ei flaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd at bapur a oedd ar fin cael ei gyflwyno i Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio cefnogaeth drawsbleidiol ar gyfer newidiadau a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl 2022.

Rhoddodd y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant amlinelliad o'r materion ynghylch cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gweithdrefn adolygu cyflawniad staff y Cyngor sy'n cael ei chyflwyno fesul cam i sicrhau ei bod yn cael ei weithredu mewn modd effeithiol a bod gan bawb ddealltwriaeth o'r weithdrefn yn ogystal â'r gwaith parhaus i ddatblygu cynllun gweithredu fydd yn cefnogi rhaglen Menywod mewn Arweinyddiaeth, llinyn penodol o waith fydd yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor maes o law.

Cododd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith hirdymor cam-drin emosiynol gan gydnabod camau gweithredu yn yr adroddiad, sy'n nodi y byddai rhaglen i ysgolion yn cael ei datblygu yn rhan o Strategaeth Llesiant y Gyfadran Addysg. Byddai'r rhaglen yma'n codi ymwybyddiaeth o gam-drin emosiynol mewn perthynas.

Cododd y Pwyllgor faterion mewn perthynas â chasglu a dadansoddi data sy'n gysylltiedig ag achosion o fwlio mewn ysgolion; cafodd ei nodi bod canllawiau perthnasol pellach wedi'u rhannu â'r holl ysgolion er mwyn cyflawni gwaith monitro yn y maes yma. Codwyd materion mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth ynghylch achlysuron gan ystyried ardal ddaearyddol y Fwrdeistref.

Yn dilyn trafodaeth ynghylch yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2019/20, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;

2. Bydd sylwadau'r Aelodau'n cael eu cynnwys yn rhan o'r adborth fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2021; a

3. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn y Cyngor, yn cwrdd cyn gynted ag y bo modd i drafod diogelwch menywod a'r anghydraddoldebau y maen nhw'n eu hwynebu mewn mannau cymunedol.

**37 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiola oedd yn crynhoi elfennau gwahanol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a dderbyniodd Cydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried datganiad sefyllfa'r Cyngor Mewn perthynas â gofynion y Ddeddf gan roi sylw arbennig i'r camau y bydd

angen mynd i'r afael â hwy i sicrhau bod RhCT yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd sawl elfen yn cael eu hystyried Yn rhan o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau ffurfiol y cyngor megis y Pwyllgor Safonau, a fydd yn trafod Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r rôl y bydd yr Arweinwyr Grŵp yn ei chwarae o ran ymddygiad eu haelodau a bydd y Cabinet hefyd yn trafod yr adroddiad hwn yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2021.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi cydnabod bod rhan fawr o'r trafodaethau hyd yma wedi canolbwyntio ar y Cydbwyllgorau Corfforedig ac ymestyn yr etholfraint i 16 ac 17 oed yn ystod etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf yn ogystal â pharatoi ar gyfer ymestyn yr etholfraint i'r grŵp oedran yma mewn da bryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn falch o roi gwybod bod y Cyngor eisoes wedi gwneud llawer o'r gwaith cychwynnol er mwyn hyrwyddo prosesau democrataidd ac ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n ffurfio rhai o ystyriaethau'r Ddeddf ac a fydd yn cael eu cyflawni gan y Cyngor. Tynnodd sylw'r Aelodau at y meysydd eraill y mae'r Ddeddf yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth ar eu cyfer, megis y pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer prif gynghorau a'r cynghorau cymuned cymwys, galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu dulliau gweithio rhanbarthol mwy cydlynol ledled Cymru, perfformiad mwy ffurfiol a threfniadau llywodraethu wedi'u seilio ar adolygiadau hunanasesu a chyfoedion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y cynigion i sicrhau bod rôl craffu o fewn prif gyngor yn fwy effeithiol gan gryfhau'r trefniadau craffu'n berthnasol iawn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae hyn oherwydd bod y Pwyllgor yn cyflwyno cyfleoedd i graffu a thrafod penderfyniadau allweddol cyn i'r Cabinet benderfynu ar y materion hynny. Nodwyd bod hyn yn faes y mae'r Pwyllgor Craffu eisoes yn ei gyflawni fel mater o arfer da.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi cydnabod meysydd allweddol eraill o ddiddordeb y bydd angen i'r pwyllgor yma'u trafod yn y dyfodol, megis diwygio cyfranogiad y cyhoedd a'r penderfyniad a fydd yn galluogi'r Aelodau i fynychu cyfarfodydd rhithwir. Esboniodd y bydd modd i'r Cyngor ddarlledu'i gyfarfodydd cyn bo hir ar ôl cyflwyno cyfleuster gweddarlledu sy'n cael ei ddarparu gan Public I. Bydd y cyfleuster yn cael ei integreiddio'n llwyr â'r trefniadau rhithwir presennol. Byddan nhw hefyd yn ein galluogi ni i ddarparu dull hybrid ar gyfer cyfarfodydd gan barhau i allu darlledu'n fyw ar-lein.

O ran agenda amrywiaeth, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod Yna newidiadau i'r trefniadau absenoldeb teuluol a chyfleoedd rhannu swydd ar Gyfer Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion y Pwyllgorau. Gwelliannau i rôl Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i gryfhau a chefnogi rôl aelodau anweithredol a dylanwad craffu ym mhob rhan o'r Cyngor. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i roi amlinelliad o'r newidiadau i drefniadau'r weithrediaeth, Rhannu gwybodaeth rhwng y rheolyddion, newidiadau i  Drefniadau'r Awdurdod Tân ac Achub, newidiadau i Gomisiwn Ffiniau a sut y bydd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu. Rhoddodd wybod y bydd gwybodaeth bellach mewn perthynas â sut y bydd y Ddeddf yn dod i rym a pha elfennau y bydd angen eu dwyn ymlaen o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor y flwyddyn yma, Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 a thu hwnt.

I gloi, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y Cyngor wedi cael ei

ofyn i gymryd rhan mewn gweithgor mewn perthynas â'r agenda cyfranogi er mwyn gallu llywio'r rheoliadau.

Yn dilyn y cyflwyniad, fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ymateb i nifer o ymholiadau ynghylch y system Pleidleisio Sengl Trosglwyddadwy ar ôl 2022, rôl Cydbwyllgorau Corfforedig, diffiniad swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol mewn perthynas ag ymgyrchu ac ymgeisio, a statws Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a chryfhau'r rôl statudol.

Yn unol ag ymholiad cynharach, roedd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedi ymateb i bryder a godwyd ynghylch sut mae'r Cyngor yn diogelu staff iau os nad ydyn nhw'n llwyddiannus mewn etholiad. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod nifer o bolisïau ar waith megis polisi chwythu'r chwiban sy'n diogelu unigolion yn ogystal â cheisio cymorth gan yr undebau llafur.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi datganiad sefyllfa'r Cyngor wedi'i amlinellu yn yr adroddiad mewn perthynas â gofynion y Ddeddf.

**38 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddod ac am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod. Crynhodd y pwyntiau allweddol i fod wedi codi o'r ddau adroddiad a ystyriwyd a'r argymhellion i gynnwys yr argymhelliad ychwanegol y dylid cynnull Pwyllgor Trosedd ac Anhwylder cyn gynted â phosibl.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.20 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**